**BWRDD PENSIWN 18-12-2023**

**Yn bresennol**:

Eifion Jones (Cadeirydd) a Tony Deakin (Cynrychiolwyr Aelodau)

Cyng. Beca Roberts a Ned Michael (Cynrychiolwyr Cyflogwr)

**Swyddogion**: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**ERAILL A WAHODDWYD**

Cyng. Stephen Churchman (Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau) - arsylwi

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sioned Parry (Cynrychiolydd Cyflogwr) ac Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16 Hydref fel rhai cywir.

**5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 27 Tachwedd 2023

**6. RHAGLEN DASHFYRDDAU PENSIYNAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau oedd yn manylu ar y gwaith sydd angen ei wneud mewn ymateb i lansiad Rhaglen Dashfyrddau Pensiynau sy'n cael ei arwain gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Bwriad y Rhaglen Dashfyrddau Pensiynau yw cynnig gwasanaeth digidol ar gyfer rhannu gwybodaeth a chynorthwyo aelodau i gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad gan gael mynediad at wybodaeth ddiogel mewn un lle. Ategwyd y byddai darparwyr dashfwrdd lluosog yn y farchnad yn rhoi cyfle i unigolion ddewis dashfwrdd a chyflwyno cais i weld gwybodaeth am eu pensiwn. Bydd rhaid i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus gysylltu â dashfwrdd erbyn Medi 30 2025.

Adroddwyd bod angen i weinyddwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd,

- benodi Darparwr Gwasanaeth Integredig (ISP) i gysylltu ag ecosystem y dashfwrdd pensiynau. Nodwyd bod Heywood Pensions Technologies (darparwr meddalwedd) yn datblygu ISP fyddai hefyd yn gweithio gyda phrosesau a meddalwedd cyfredol y Cyngor.
- ymateb i'r her o sicrhau bod y data sydd ar y system yn gywir. Er yn sgorio'n uchel yn sgoriau data cyffredin a chynllun penodol y Rheoleiddiwr Pensiynau, bydd rhaid cydymffurfio â safon newydd, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r rhaglen dashfwrdd pensiynau.
- Clirio gwaith sydd yn ymwneud ac ymadawyr sydd heb eu prosesu - rhaid cwblhau'r gwaith cyn cysylltu ag ecosystem y dashfyrddau. Adnoddau staff ychwanegol wedi eu dyrannu i'r gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod hyn yn cael ei gyfarch (nifer yr ymadawyr heb eu prosesu bellach wedi gostwng o oddeutu 6,000 i 3,500 erbyn Rhagfyr 2023.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:
- Bod y gwaith yn mynd i'r cyfeiriad cywir
- Croesawu bod adnoddau ychwanegol wedi cael eu hadnabod i gwblhau'r gwaith

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd y gwaith yn wirfoddol neu'n fandadol, nodwyd bod y gwaith yn fandadol ac yn cael ei arwain gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Ategwyd mai'r bwriad yw cael y dashfyrddau wedi eu cwblhau ar draws y DU erbyn 2026 - y gwaith cysylltu yn cael ei fonitro ac os na fydd cydymffurfiaeth, bydd cosb.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â derbyn diweddariad o'r gwaith, nodwyd bod bwriad cyflwyno diweddariad i bob cyfarfod o'r Bwrdd gan gyflwyno data cyfredol o'r datblygiadau ar hyn sydd wedi ei gwblhau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

## 7. DIWEDDARIAD ACHOS McCLOUD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn diweddaru'r Bwrdd ar y gwaith sydd yn cael ei wneud mewn ymateb i achos llys McCloud. Atgoffwyd yr Aelodau, pan ddiwygiwyd cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn 2014 a 2015, cyflwynwyd mesurau diogelu ar gyfer aelodau hŷn i sicrhau na fyddai'r diwygiadau'n creu effaith negyddol ar eu pensiwn. Er hynny yn Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl bod rhai aelodau wedi dioddef anffafriaeth oherwydd nad oedd yr amddiffyniadau yn berthnasol iddynt hwy. O ganlyniad, roedd rhaid i'r Llywodraeth roi amddiffyniad i aelodau iau sy'n gyfartal â'r amddiffyniad sylfaenol a ddarperir i aelodau hŷn er mwyn dileu'r anffafriaeth. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig daeth y rheoliadau terfynol i rym ar y 1af o Hydref 2023.

Cyfeirir at y gwaith o ddileu'r 'anffafriaeth' fel Prosiect McCloud ac er derbyn bydd yn brosiect sylweddol i'r Gronfa a'r cyflogwyr, gydag ychydig iawn o newid i werth buddion aelodau ar ddiwedd y prosiect, bod cyfle gwych yma i sicrhau bod data cywir a chyfredol yn cael ei gofnodi ar gyfer y Dashfwrdd Pensiynau.

Wrth gydweithio gyda Hymans Robertson, adroddwyd bod oddeutu 11,500 o aelodau'r Gronfa wedi eu heffeithio gan achos Mc Cloud ac y bydd angen gweithredu rhyw fath o adolygiad arnynt. Yn dilyn cais am wybodaeth gan 22 o gyflogwyr (bach a chanolig) y Gronfa, adroddwyd mai dim ond pum cofnod oedd angen ei ddiwygio. Adroddwyd bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r prif gyflogwyr i drafod y data sydd ei angen ac i olrhain cynnydd. Mynegwyd bod y gwaith o ail-gyfrifo

buddion holl aelodau'r cynllun sydd wedi gadael a thalu unrhyw dan ddaliadau neu addasu lefel pensiynau wrth symud ymlaen, wedi dechrau, gyda'r holl achosion marwolaethau wedi'u hailgyfrif.

Er derbyn bod cydymffurfio gyda gofynion prosiect McCloud yn creu gwaith ychwanegol i'r Uned Pensiynau, nodwyd eu bod yn hyderus, gyda chydweithrediad y cyflogwyr, o gwblhau'r gwaith yn llwyddiannus ac y bydd y gwaith o ddilysu'r data yn symleiddio'r gwaith i'r blynyddoedd nesaf. Bydd hefyd yn sicrhau data o ansawdd uchel fel y gall aelodau weld data cyflawn a chywir ar y dangosfwrdd neu Fy Mhensiwn Ar-lein.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol,

- Bod hyn yn creu llawer o waith ychwanegol i'r tîm Pensiynau
- Yn diolch i'r tîm am eu gwaith – er na fydd y gwaith yn debygol o ddod a budd i lawer
- Yn dymuno gweld pawb yn cydweithio ac i roi gwybod i'r Bwrdd os bydd pryderon yn codi

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ail gyfrifo ac os bydd ystyriaeth yn cael ei roi i lwfans blynyddol cyfreithiol a lwfans oes, nodwyd bydd pob achos yn cael ei ail-gyfrifo yn unigol. Os bydd unrhyw ddigolledu, y Gronfa fydd yn talu ac nid CThEF. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â digolledu'r rhai hynny sydd wedi dewis yr opsiwn derbyn lwmp swm, nodwyd eto, y byddai pob achos yn cael ei ystyried fel achos unigol.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth**

## 8. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod a diweddariad ar amrywiol brosiectau.

Cyfeiriwyd at lwyddiant a phoblogrwydd y wefan 'Fy Mhensiwn Ar-lein' gan amlygu bod nifer o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol ac oddeutu 20,000 wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hyd yma. Nodwyd bod fersiwn newydd o'r wefan yn cael ei lasnio yn ystod Gwanwyn 2024 gyda nodweddion newydd i'r aelodau fydd yn cynnwys gwelliannau i'r broses cofrestru.

Adroddwyd bod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda'r Adran Technoleg Gwybodaeth i ail ddylunio safle we gyffredinol y Gronfa i gyd fynd gyda delwedd newydd y wefan 'Fy Mhensiwn Ar-lein'. Nodwyd bod angen diweddaru'r wefan a bod bwriad datblygu sawl fideo byr i egluro gwahanol agweddau o'r cynllun i'r aelodau.

Bu stondin y Gronfa Bensiwn ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan yn llwyddiannus iawn gyda nifer yn ymweld i holi am wybodaeth a chefnogaeth. Y bwriad yw cynnal digwyddiadau tebyg i aelodau yn ystod 2023/24.

Yng nghyd-destun Cynnydd Pensiwn 2024, nodwyd mai'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Medi 2023 oedd 6.7% ac mai'r ffigwr yma fydd yn cael ei ddefnyddio yn Ebrill 2024 i gynyddu buddion pensiwn (yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Llywodraeth) i bensiynwyr sydd wedi ymddeol ers 12 mis neu fwy.

Tynnwyd sylw at y gwaith a'r materion sy'n ofynnol adrodd arnynt yn 2024/25. Y bwriad yw cynnwys y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ynghyd â diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd Pensiwn olrhain y cynnydd a wneir.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod yr adroddiad yn un defnyddiol
- Croesau diweddariadau rheolaidd o wybodaeth
- Bydd angen gwaith paratoi sylweddol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol

Mewn ymateb i sylw nad oedd cofnod swyddogol o hyfforddiant a fynychwyd gan Aelodau a bod hi'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn fynychu sesiynau hyfforddiant penodol ond nid y Pwyllgor, nodwyd bod y wybodaeth yn cael ei gofnodi ond bydd disgwyliad i'r wybodaeth gael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth.**

**9. ARCHWILIAD PERTHNASOL CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023**

Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft o Ddatganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2022/23 wedi ei gyflwyno yng nghyfarfod Gorffennaf 2023, lle adroddwyd bod y Pennaeth Cyllid, yn ei rôl fel Swyddog Cyllidol Cyfrifol, wedi ardystio'r cyfrifon drafft a'u bod yn destun archwiliad.

Adroddwyd bod y cyfrifon bellach wedi cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru a bod yr adroddiad 'ISA260' yn manylu ar ddarganfyddiadau'r archwiliad. Amlygwyd na chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ond cyfeiriwyd at Nodyn 13 lle canfuwyd gwall yn rhaniad yr incwm buddsoddi, ond bod y cyfanswm yn ymddangos yn gywir. Amlygwyd bod ambell i eitem 'datguddiad' (disclosure) hefyd wedi eu cywiro ond nad oedd unrhyw newid i'r cyfrifon craidd a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022.

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Pwyllgor Pensiynau ar yr 27ain o Dachwedd 2023 ac fe'u cyflwynwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Gronfa. Cadarnhawyd bod y rheolwyr wedi cyflwyno ymateb i argymhelliad Archwilio Cymru, oedd yn ymwneud â data aelodaeth yn cael ei ddiweddaru'n barhaus.

Diolchwyd am yr adroddiad a llongyfarchwyd y tîm am gyflwyno cyfrifon glan a hynny o fewn yr amserlen.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a nodi sylwadau'r Archwilwyr.**

**10. GWYDDONIAETH HINSAWDD A MODELU ECONOMAIDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ymateb i sut mae Cronfa Pensiwn Gwynedd wedi ystyried yr hinsawdd wrth osod ei strategaeth ariannu a buddsoddi, a sut byddai hyn yn datblygu i'r dyfodol.

Adroddwyd bod nifer o erthyglau diweddar wedi'u cyhoeddi yn nodi nad yw'r cyngor y mae cronfeydd pensiwn yn ei dderbyn yn dilyn gwyddoniaeth hinsawdd ac felly'n peryglu'r buddsoddiadau (hyn, yn bennaf, yn seiliedig ar adroddiad gan Carbon Tracker (Gorff 2023). Nodwyd bod rhai o aelodau'r Bwrdd hefyd wedi tynnu sylw swyddogion at yr erthyglau gan rannu eu pryderon. Prif neges Carbon Tracker, cwmni dielw sy'n archwilio risg hinsawdd, yw bod papurau economaidd yn anwybyddu 'pwyntiau tyngedfennol' hinsawdd sy'n golygu bod newidiadau yn yr

effaith economaidd o gynhesu byd-eang yn "*llawer mwy tebygol o fod yn amharhaol ac yn sydyn, yn hytrach nag yn barhaus ac yn gymharol raddol*".

Nodwyd bod y pryderon wedi eu rhannu gyda Hymans Robertson, ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa oedd, yn cytuno bod yr adroddiad yn codi pwyntiau dilys, ond bod yr agweddau roeddynt yn cyfeirio atynt wedi eu hystyried wrth osod strategaeth buddsoddi'r Gronfa. Ystyriwyd y materion hyn drwy ddefnyddio 'dadansoddiad senario' gydag enghreifftiau o'r sefyllfaoedd hynny wedi eu rhannu gyda'r Aelodau. Cydnabuwyd bod angen esblygu'r agwedd wrth i ddealltwriaeth o risg hinsawdd ddatblygu, a bod angen i Hymans ymchwilio i senarios manylach a mwy eithafol. Ategwyd y bydd mesur amlygiad i beryglon hinsawdd a datblygu cynllun gweithredu pontio hinsawdd yn gamau nesaf allweddol i'r Gronfa fynd i'r afael a hwy ynghyd a gweithredu gofynion TCFD (sef datgelu trefniadau llywodraethu'r Gronfa yng nghyd-destun risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r hinsawdd).

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Yn dilyn hyfforddiant diweddar gan Hymans bod rhywun yn teimlo'n fwy cyfforddus bod yr hyn mae Cronfa Gwynedd yn ei wneud yn cyfateb â'r safon gofynnol.
- Bod angen sicrhau cydbwysedd - bod budd i ymgysylltu a cheisio dylanwadu
- Os oes bwriad i fuddsoddi llai mewn ecwiti a mwy mewn isadeiledd i'r dyfodol, bydd hyn yn fwy carbon niwtral

- Bod ffi yn cael ei dalu i Hymans i wneud y gwaith. A ddylid derbyn yr hyn mae Hymans yn ddweud - a yw'r ymateb yn dderbyniol? A ddylid trafod gydag Aelodau'r Gronfa i ganfod os ydynt yn hapus i beidio â buddsoddi gyda chwmnïau sydd yn niweidiol i'r hinsawdd? Pam na ellir dadfuddosddi erbyn 2030? Cronfeydd pensiwn eraill yn dadfuddsoddi - angen edrych i mewn i hyn.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Pennaeth Cyllid mai prif gyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau yw sicrhau dychweliadau da i aelodau'r Gronfa drwy fuddsoddi yn gyfrifol a diogel. Eglurwyd, pan fydd cyngor yn cael ei dderbyn gan Hymans Robertson, bydd swyddogion proffesiynol yn herio, holi, dehongli a dadansoddi'r wybodaeth cyn ei rannu / drafod gydag aelodau. Bydd hyn yn fodd o sicrhau llywodraethiant cyfrifol o'r Gronfa ac o osgoi peryglu sefydlogrwydd y Gronfa mewn unrhyw fodd. Ategwyd mai penderfyniad ffurfiol Cronfa Gwynedd yw ymgysylltu ac nid dadfuddsoddi a hynny oherwydd bod mwy o ddylanwad i'w gael drwy fuddsoddi. Nododd hefyd ei fod yn ymwybodol bod rhai cronfeydd yn dadfuddsoddi a bod modd canfod mwy o wybodaeth am hyn. Petai sefyllfa yn codi lle bydd modd buddsoddi llai e.e, mewn tanwydd ffosil, bydd hyn yn cael ei ystyried; bod Cronfa Gwynedd yn ymwybodol o'r cyfeiriad sydd wedi ei osod ac felly yn gweithio tuag at hyn.

Ategodd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau bod gan y Pwyllgor gyfrifoldeb i sicrhau cydbwysedd rhwng eu dyletswydd cyfreithiol i ymddwyn fel ymddiriedolwyr er lles gorau i eraill ynghyd ag ystyried cyfrifoldebau amgylcheddol a newidiadau i'r hinsawdd. Y bwriad yw gwneud camau bychain drwy ymgysylltu yn hytrach na dadfuddsoddi, gyda rhesymeg, y gall buddsoddwyr ddylanwadu cwmnïau a gyrru newid wrth i'w diddordeb newid. Mewn ymateb i sylw am gyngor Hymans Robertson, nodwyd bod cyfrifoldeb ar y cwmni i gyflwyno'r cyngor gorau a'r cyngor cywir i ymddiriedolwyr y gronfa a phetai sefyllfa yn codi lle na fydd ymddiriedaeth yn eu cyngor, yna bydd modd canfod ymgynghorwyr newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

**11. CYNADLEDDAU PENSIYNAU**

Cyflwynwyd adroddiad yn rhestru dyddiadau cynadleddau pensiynau ar gyfer 2024. Nodwyd bod y cynadleddau yn rhoi cyfle i'r Aelodau ehangu eu gwybodaeth a thrafod materion cyfoes. Trafodwyd y dyddiadau a bu i'r Aelodau ddatgan diddordeb yn y digwyddiadau hynny oedd yn gyfleus iddynt.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a nodi'r dyddiadau**

**12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

**13. ADOLYGIAD O DDYRANIAD ASEDAU STRATEGOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD**

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod y Pwyllgor Pensiynau, yn eu cyfarfod fis Tachwedd 2023, wedi penderfynu cymeradwyo dyraniad asedau newydd, fydd yn cael eu gweithredu dros y misoedd nesaf.

Mynegwyd mai Dyrannu Asedau Strategol yw'r penderfyniad pwysicaf ar gyfer unrhyw Gronfa Bensiwn gan ategu nad oes unrhyw ffordd gywir nac anghywir o benderfynu ar y Dyraniad Asedau Strategol ac mai mater o ddod o hyd i'r ateb gorau i gyfyngiadau a chyfleoedd yw hyn. Bydd yr ateb hefyd yn cael ei ddylanwadu gan athroniaethau personol y buddsoddwyr.

Diolchwyd am yr adroddiad

Trafodwyd yr asedau arfaethedig newydd

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod y Bwrdd yn derbyn cyfeiriad y Pwyllgor
- Yn croesawu gwaith i sefydlogi'r Gronfa
- Yn diolch i'r swyddogion am eu gwaith

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a nodi'r dyraniad asedau strategol newydd ar gyfer y Gronfa**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:30pm